BYWGRAFFIAD ARTIST

Leah-Marian Jones

Mezzo-Soprano

Artist Manager: Sioned Jones
sioned.jones@harlequin-agency.co.uk

Wedi'i sefydlu ei hun ar lwyfannau'r Royal Opera House, Covent Garden; English National Opera; Scottish Opera; Opera Cenedlaethol Cymru, mae'r mezzo-soprano o Gymru Leah-Marian Jones wedi gwneud ymddangosiadau yn The Metropolitan Opera, Efrog Newydd; Théâtre du Châtelet; Angers-Nantes Opéra ac Opéra de Rennes, Ffrainc.

Yn raddedig o'r Royal Northern College of Music a'r National Opera Studio, Llundain, roedd Leah-Marian Jones yn un o Brif Artistiaid Cwmni y Royal Opera House, Covent Garden am wyth mlynedd lle canodd dros 30 rhan yn cynnwys **Tisbe** yn *La Cenerentola;* **Dorabella** yn *Così fan tutte*; **Maddalena** yn *Rigoletto*; **Mercedes** yn *Carmen*; **Annina** yn *Der Rosenkavalier*; **Flosshilde** yn *Das Rheingold* a *Götterdämmerung*.

Mae perfformiadau Leah-Marian fel cantores lawrydd yn cynnwys: **Carmen***;* **Maddalena** yn *Rigoletto*; **Orestes** yn *La Belle Helene;* **Sonyetka** yn *Lady Macbeth of Mtzensk;* **Rossweisse** yn *Valkyrie* a **Hippolyta** yn *A Midsummer Night's Dream* i English National Opera; **Meg Page** yn *Falstaff*; **Dorabella** yn *Così fan tutte;* **Hansel** a **Witch** yn *Hänsel und Gretel*; **Annina** yn *Der Rosenkavalier*; **Page** yn *Salome;* **Bersi** yn *Andrea Chenier;* **Baba the Turk** yn *The Rake's Progress;* **Jezibaba** yn *Rusalka* a **Rossweisse**, **Flosshilde** a **Norn** yn y *Ring* Wagner i Scottish Opera; **Sara** yn *Roberto Devereux*; **Hedwige** yn *Guillaume Tell*; **Amenofi** yn *Mosè in Egitto*; **Lola** yn *Cavalleria Rusticana*; **Maddalena** yn *Rigoletto* a **Kabanicha** yn *Kátya Kabanová* a **Genevieve** yn *Pelléas et Mélisande,* a oedd yn cynnwys perfformiadau yn yr Hong Kong International Arts Festival i Opera Cenedlaethol Cymru; **Zaida** yn *Il Turco in Italia* a **Polly Peachum** yn *The Beggars Opera* i The Royal Opera House, Covent Garden; **Maddalena** a **Giovanna** yn *Rigoletto* i Opera North; **Frederica** yn *Luisa Miller* i Chelsea Opera; **Carmen** in *La Tragedie de Carmen* i English Touring Opera a **Hippolyta** yn *A Midsummer Night's Dream* yn Aldeburgh Festival.

Gwnaeth ei début Americanaidd fel **Junon** yn *Platée* yn Berkeley, San Francisco ac yn ddiweddarach pherfformiodd **The Young Doctor** yn *Palestrina* gyda'r Metropolitan Opera House, Efrog Newydd. Yn Ewrop, mae wedi canu **Flosshilde** yn *Götterdämmerung* yn Théâtre du Châtelet, Paris; **Meg Page** yn *Falstaff* a **Flora** yn *La Traviata* i Angers-Nantes Opéra a Opéra de Rennes; **Kabanicha** in *Katya Kabanova* gydag Opéra National de Lorraine a **Hippolyta** in *A Midsummer Night's Dream* yn Teatro Massimo, Palermo.

Mewn cyngerdd mae Leah-Marian wedi perfformio **Flosshilde** mewn perfformiad cyngerdd o *Das Rheingold* gyda Cherddorfa'r Hallé dan arweiniad Syr Mark Elder yn y Bridgewater ym Manceinion; *Sea Pictures* Elgar gyda Cherddorfa Opera Cenedlaethol Cymru yng Nghadeirlan Dewi Sant fel rhan o ?yl Gerdd Ryngwladol Abergwaun; **Madame Rivers** yn *Adelson e Salvini* gyda'r BBC Symphony Orchestra ar gyfer Opera Rara – perfformiad a chafodd ei recordio; **Rossweisse** a **Flosshilde** mewn perfformiadau cyngerdd o *Die Walküre* a *Götterdämmerung* gyda'r Hallé Orchestra dan arweiniad Syr Mark Elder yn y Manchester International Festival; **Rossweisse** mewn perfformiad cyngerdd o Act 3 *Die Walküre* yn y Glastonbury Festival ac fel rhan o dathliadau penblwydd Canolfan Mileniwm Cymru, Caerdydd yn 10 oed. Mae ei hymddangosiadau cyngerdd yn y Royal Albert Hall, Llundain yn cynnwys Cyngerdd Gala gyda'r diweddar Luciano Pavarotti; perfformio mewn cyngerdd o waith Verdi ym Mhroms y BBC; *Messiah* Handel a darllediad teledu o *Mass for Peace - The Armed Man* Karl Jenkins, dan arweiniad y cyfansoddwr i ddathlu ei benblwydd yn 60 oed.

Mae wedi cyflwyno rhaglen ei hun ar S4C ac wedi ymddangos fel unawdydd ar *Diva, Diva, Diva* gyda Lesley Garrett ar BBC 2. Mae recordiadau'n cynnwys *Paul Bunyan* Britten i Chandos.

Mae ei hymrwymiadau'r tymor yma yn cynnwys **Princess Marie Akrossimova/ Aide de Camp of Murat/ Mavra Kuzminichna** yn *War and Peace* a **Secretary** mewn perfformiadau cyngerdd o *The Consul* gyda Chwmni Opera Cenedlaethol Cymru, ei debut fel **Zita** yn *Gianni Schicchi* ar gyfer Opera North a **Rosa** mewn perfformiadau cyngerdd o *Silvano* gyda Scottish Opera.

Rydym yn diweddaru'n bywgraffiadau yn gyson, felly cysylltwch â ni am y fersiwn ddiweddaraf, os gwelwch yn dda.